

### **Beth allwn ni ei wneud i helpu i leihau'r newid yn yr hinsawdd?**

Ryden ni yn gallu gwneud llawer i helpu i leihau'r newid yn yr hinsawdd. Y rheswm mae'r hinsawdd yn newid yw egni anadnewyddadwy. Ryden ni fel byd 'eco', yn defnyddio gormod o danwyddau ffosil. Dydy petrol, olew a glo ddim yn dda i'r awyr a'r ddaear. Mae egni anadnewyddadwy yn cario llygredd drwg fel carbon deuocsid a dydy hyn ddim yn dda i'r awyr. Ond rydw i'n deall pam ryden ni yn defnyddio egni anadnewyddadwy oherwydd mae mantais iddo.

Mae egni anadnewyddadwy yn dda oherwydd maent yn cynhyrchu llawer o egni ac maent yn eithaf drud. Maent yn ddibynadwy hefyd.

Yn lle defnyddio egni anadnewyddadwy, ryden ni yn gallu defnyddio egni adnewyddadwy - dŵr, gwynt, haul a.y.y.b. Yn lle defnyddio olew/nwy i greu egni yn eich tŷ, rydych chi'n gallu rhoi paneli solar ar eich to i greu'r egni. Ond y broblem yw, dydy egni adnewyddadwy ddim yn ddibynadwy iawn. Hefyd mae'n ddrud iawn!

Problem arall pam mae'r hinsawdd yn cynyddu yw ceir diesel/petrol oherwydd mae diesel/petrol hefo CO<sub>2</sub> ynddo ac mae CO<sub>2</sub> yn ddrwg i'r amgylchedd. Y dyddiau yma mae yna rai cwmnïau ceir yn dyfeisio ceir trydanol. Mae'r ceir trydanol yn well i'r amgylchedd oherwydd dyden nhw ddim angen diesel neu betrol, felly mae'n rhedeg ar egni'r haul. Yr anfantais o geir trydanol yw eu bod nhw'n gostus iawn. Mae yna lawer o geir diesel rwan sydd angen AdBlue ynddo. Y prif fantais o ddefnyddio AdBlue yn eich ceir diesel yw ei fod yn lleihau allyriadau mono-nitrogen ocsid, a fydd yn lleihau'r effaith negyddol sydd gan eich busnes ar y amgylchedd.

I orffen, rydw i'n meddwl dylen ni ddefnyddio llai o egni anadnewyddadwy ond dal defnyddio fo weithiau a defnyddio mwy o egni adnewyddadwy.